# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn via Video Conference, Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Peter Evans, Alan James (Is-Gadeirydd), Tina Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Pete Prendergast, Peter Scott, Tony Thomas, Joe Welch (Cadeirydd), Emrys Wynne a Mark Young

Sylwedydd– Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Swyddog Cynllunio (PG), Cyfreithiwr (TD), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Mabon ap Gwynfor, Brian Jones, Merfyn Parry a/ac Julian Thompson-Hill

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 2 Medi 2020.

Cywirdeb:

Datganodd y Cynghorydd Christine Marston bod y cynnig ar dudalen 15 yn Gymraeg ar y fersiwn Saesneg. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai hynny'n cael ei gywiro.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y cywiriad uchod, derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2020 a chadarnhau eu bod yn gofnod cywir.*

## 5 CAIS RHIF 20/2020/0530/PF - GRAIG COTTAGE, GRAIGADWYWYNT

Cyflwynwyd cais i godi ystafell yr ardd a gosod tanc septig yn Graig Cottage, Graigadwywynt, Rhuthun.

**Trafodaeth gyffredinol -**

Mynegodd aelodau bryder oherwydd bod ceisiadau cynllunio blaenorol am annedd ar y safle hwn wedi cael eu gwrthod a gofynnwyd i swyddogion sicrhau na fyddai'r cais hwn am ystafell yr ardd gyda thoiled a sinc cegin yn gam ar gyfer cais am dŷ yn y dyfodol.

Cadarnhaodd swyddogion bod angen i aelodau asesu'r cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ac y byddai'r ystafell yr ardd yn cael ei defnyddio fel lle i gael seibiant ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n rhannu cyfrifoldeb am ofalu am riant hŷn sy'n byw yn Graig Cottage.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Emrys Wynne y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Ellie Chard.

**Pleidlais -**
Cymeradwyo - 14
Ymatal – 0
Gwrthod – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

**6 CAIS RHIF 22/2020/0544/PO – TIR YN BRIAR LEA, GELLIFOR**

Cyflwynwyd cais i ddatblygu 0.21 hectar o dir drwy godi 4 annedd (cais amlinellol gyda mynediad) ar dir yn Briar Lea, Gellifor.

**Trafodaeth gyffredinol -**

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd maint yr anheddau wedi'u pennu eto. Lled lleiaf y ffordd fynediad fyddai 4.8 metr ac nid oedd gan yr Adran Briffyrdd unrhyw wrthwynebiadau.

Cadarnhawyd hefyd y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r ymgeisydd ynglŷn â chymysgedd yr anheddau a gynigir.

**Cynnig –** Cynigodd y Cyng. Mark Young y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bob Murray.

**Pleidlais -**
Cymeradwyo - 15
Ymatal – 0
Gwrthod – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

## 7 CAIS RHIF 23/2020/0067 – PARC CARAFANAU CAER MYNYDD, FFERM CAER MYNYDD, SARON

Daeth yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Alan James, i gadeirio'r eitem hon gan fod y cais yn ward y Cadeirydd, y Cynghorydd Joseph Welch.

Cyflwynwyd cais i ymgymryd â gwaith peirianneg arfaethedig i greu llyn pysgota, llwybrau mewnol, maes parcio a gwaith cysylltiedig ym Mharc Carafanau Caer Mynydd, Fferm Caer Mynydd, Saron.

Mynegodd y Cynghorydd Joe Welch (Aelod Lleol) ei wrthwynebiad i'r cais.

Roedd y Cyngor Cymuned a nifer o drigolion lleol hefyd wedi anfon eu gwrthwynebiadau i'r cais.

Roedd trigolion lleol yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o bartïon yn cael eu cynnal yn hwyr yn y nos ar y tir.

Roedd materion yn ymwneud â mynediad hefyd wedi'u nodi o fewn y gwrthwynebiadau.

**Trafodaeth gyffredinol -**

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch rhai o'r materion a godwyd gan yr Aelod Lleol.

- Hyd at 30 o gerbydau yn mynd i'r safle pob dydd. Nid yw Priffyrdd wedi mynegi gwrthwynebiadau. Ni fyddai'r amcangyfrif o 30 ymwelydd y dydd yn cael effaith sylweddol ar y briffordd - byddai'r un fath ag oddeutu 4 taith cerbyd yr awr mewn diwrnod 8 awr. Mae'r maes parcio arfaethedig yn darparu lle i 10 car barcio
- Daw dŵr yfed Saron drwy'r cae dan sylw. Byddai'r ymgeisydd yn gyfrifol am gysylltu â Dŵr Cymru, sydd y tu hwnt i reolaeth CSDd
- Mae tanc septig y capel hefyd y tu allan i reolaeth CSDd
- O ran pryderon ynghylch sŵn, ceir deddfwriaeth ar wahân ar gyfer sŵn dan niwsans statudol
- Cadarnhaodd y swyddogion fod yr adeilad amwynder wedi'i ddymchwel ac nad oes adeiladau ar dir y cais
- Byddai derbynfa a thoiledau'r parc carafanau ar gael i ymwelwyr

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Melvyn Mile, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Ellie Chard, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

**Pleidlais:**
Cymeradwyo – 12
Ymatal – 0
Gwrthod – 3

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

## 8 YMATEB I YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL

Cyflwynwyd ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol – Fferm Ynni Solar Elwy - Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol

Gwahoddwyd y Pwyllgor Cynllunio i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar y Fferm Ynni Solar Elwy arfaethedig yn Llanelwy.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Datblygu Cynllunio mai'r ymgynghoriad cyn ymgeisio oedd cam cyntaf y broses. Byddai manylion y cais yn cael eu trin yn ddiweddarach yn y broses.

Cafwyd trafodaeth a bu i'r Aelod Lleol, y Cynghorydd Peter Scott, fynegi ei gymeradwyaeth i'r datblygiad.

**Cynigiwyd** gan y Cynghorydd Peter Scott ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies i gytuno i gefnogi mewn egwyddor yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, yn amodol ar y cais ffurfiol ac yn amodol ar yr adroddiad effaith lleol.

**Pleidlais -**
Cytuno - 15
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Cynllunio yn cytuno i gefnogi mewn egwyddor yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, yn amodol ar y cais ffurfiol ac yn amodol ar yr adroddiad effaith lleol.*

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 3.35 P.M.**